

Jeremy Miles AS/MS

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language**



Eich cyf/Your ref P-06-1410
Ein cyf/Our ref JMEWL/00573/24

**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

15 Ebrill 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mawrth ynglŷn â deiseb yn galw am roi'r gorau i ddefnyddio'r enw 'Anglesey' a defnyddio'r enw 'Ynys Môn' yn unig neu'r enw byrrach 'Môn'.

Mae gwarchod enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o waith Llywodraeth Cymru, gyda'n [Rhaplen Lywodraethu 2021 i 2026](#) a'r [Cytundeb Cydweithio](#) gyda Phlaid Cymru'n cynnwys ymrwymiadau penodol i'r perwyl hwnnw. Hyd yn hyn, mae ein ffocws wedi bod ar y cyfoeth o enwau sydd gennym ar gyfer nodweddion daearyddol, daliadau tir, ac eiddo, gan gynnwys ffermydd a thai. Mae llawer o'r rhain yn hanesyddol.

Mae llawer o enwau lleoedd Cymru – yn eu plith enwau pentrefi, trefi, dinasoedd a siroedd – wedi datblygu dros gannoedd os nad miloedd o flynyddoedd, ac er bo'r rhan fwyaf ohonynt â'u tarddiadau yn y Gymraeg, mae nifer ohonynt yn deillio o Saesneg, Ffrangeg, Lladin, Gwyddeleg neu Norseg. Daw'r enw Anglesey ei hun, o bosib, o'r Hen Norseg.

Rwyf wedi dweud ar sawl achlysur fy mod, yn gyffredinol, yn cefnogi'r egwyddor a hyrwyddir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ei [Chanllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru](#), sef y dylem anelu at un ffurf pan fod ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurfiau Cymraeg a Saesneg.

Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), y mae'r Senedd yn craffu arno ar hyn o bryd, yn gwneud darpariaeth ar gyfer enwi etholaethau'r Senedd yn y dyfodol. Mae'r Bil yn creu rhagdybiaeth y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (a fydd yn gyfrifol am adolygu etholaethau'r Senedd yn hytrach na Llywodraeth Cymru) yn ceisio rhoi enw unigol ar gyfer etholaethau, i'w defnyddio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y Comisiwn ond yn cynnig dau enw os yw'n ystyried bod rhesymau penodol yn golygu y byddai enw unigol yn annerbyniol. Effaith ymarferol y darpariaethau hyn yw y byddai'n rhaid i unrhyw enw unigol fod yn dderbyniol i'w ddefnyddio yn y Gymraeg. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod enwau etholaethau'r Senedd yn gywir ac yn adlewyrchu confensiynau penodol. Bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ymgynghori'n gyhoeddus ar eu cynigion, gan gynnwys ynghylch ffiniau'r etholaethau arfaethedig a'u henwau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Does dim amheuaeth y gall y modd yr enwir sefydliadau cyhoeddus fod yn ddylanwadol. Does ond angen edrych ar sut mae'r penderfyniadau i ddefnyddio enwau Cymraeg Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog wedi cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dylanwadu ar ddefnydd unigolion a chyrrff eraill o'r enwau hynny hefyd. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod y Parciau Cenedlaethol yn sefydliadau annibynnol sydd wedi cynnal ymarferion i geisio barn yn lleol ar y cynigion ar gyfer eu henwi.

Mae gan sawl awdurdod lleol yng Nghymru, wrth gwrs, enw sy'n addas i'w ddefnyddio yn y ddwy iaith. Serch hynny, ar hyn o bryd defnyddir Ynys Môn ac Isle of Anglesey gan y Cyngor Sir yn yr ardal dan sylw. Rwyf o'r farn y byddai angen ymgysylltu a sgwrs gyhoeddus agored ynghylch unrhyw benderfyniad o'r math a grybwyllir yn y ddeiseb hon, am ei fod yn mynd at wraidd democratiaeth leol a sut mae pobl yn gweld eu hunain.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a circular mark followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language